

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ddydd Iau, 9 Rhagfyr 2021

Presennol: Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd) (Yn y Gadair), Y Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, Gwilym O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts.

Wrth Law: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP), Prif Archwilydd Mewnol (NW), Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Swyddog Diogelu Data Ysgolion (EW), Rheolwr Busnes a Pherfformiad (Dysgu) (AJ), Swyddog Pwyllgor (ATH)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Mrs Margaret Roberts, Peter Rogers (Cadeirydd)

Hefyd yn Bresennol: Y Cynghorwyr Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuencid), Mr Alan Hughes (Arweinydd Archwilio – Archwilio Perfformiad (Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Archwilio Cymru), Bethan Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo), Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), Nonn Hughes (Rheolwr Strategaeth a Busnes y Gwasanaeth)

(2:00 yp tan 4:45 yp)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1 Datganiad o Ddiddordeb
	Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	2 Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol a chadarnhawyd eu bod yn gywir - <ul style="list-style-type: none">• 21 Medi, 2021• 20 Hydref, 2021• 15 Tachwedd, 2021

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth Blynyddol Ysgolion Môn Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd— <ul style="list-style-type: none">• Derbyn Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ar Lywodraethu Gwybodaeth Ysgolion ar gyfer 2020/21.• Cymeradwyo camau nesaf arfaethedig

	y Swyddog Diogelu Data Ysgolion – y Cynllun Diogelu Data Ysgolion – er mwyn galluogi i ysgolion gydymffurfio'n llawn â'r gofynion diogelu data.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Strategaeth Atal Twyll, Llwgwobrwyo a Llygredd 2021-24 Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi strategaeth yr adran Archwilio Mewnol ar gyfer gwrthsefyll twyll, llwgwobrwyo a llygredd ar gyfer 2021-24.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad adolygiad canol blwyddyn Rheoli Trysorlys 2021/22 heb unrhyw sylwadau pellach.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Archwilio Allanol - Cyngor Sir Ynys Môn: Crynodeb Archwilio Blynyddol 2020 Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd yr eitem yn y cyfarfod hwn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Archwilio Allanol : Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru: CSYM Diweddariad Chwarterol Medi 2020 Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a'r rhaglen a gyflwynwyd.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Archwilio Allanol: Cyllid Myfyrwyr (Er gwybodaeth) Adroddiad gan Archwilio Allanol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r adroddiad er gwybodaeth.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Côd Llywodraethu Lleol Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn

	(AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Lleol drafft. • Bod Aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, yn cynnig mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol Drafft cyn iddo gael ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth 2022.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbyn y diweddariad fel cofnod o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig. • Cytuno y bydd diweddariadau o'r math hwn yn cael eu rhaglennu'n flynyddol i sylw'r Pwyllgor hwn yn ystod Chwarter Tri o'r flwyddyn ariannol.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 Diweddariad Archwilio Mewnol Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 Siatr Archwilio Mewnol Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r adolygiad a chymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 Rhaglen Waith wedi'i Diweddarau Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio a Risg
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd nodi'r mân ddiwygiadau i'r Blaen Raglen Waith gymeradwy ar gyfer 2021-22.
